**Cofnodion Drafft: 23-07 (22 Tachwedd 2023)**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Medwin Hughes | Cadeirydd |
| Grace Quantock | Dirprwy Gadeirydd |
| Bamidele Adenipekum | Anweithredol |
| Jack Evershed | Anweithredol |
| Barbara Harrington | Anweithredol |
| Karen Lewis | Anweithredol |
| Jason Smith | Anweithredol |
| Alyson Thomas | Prif Weithredwr (PW) |

**Mynychwyr:**

| | |
|---|---|
| Ben Eaton | Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Alun Lloyd | Arweinydd Llywodraethu Ariannol |
| Ceri Sullivan | Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifenyddes y Bwrdd |
| Sharon Walters | Rheolwraig Busnes |

Draft

## Croeso a chyflwyniadau, datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nododd y cadeirydd fod hwn yn gyfarfod arbennig a oedd yn cael ei gynnal i fabwysiadu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 yn ffurfiol.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rajan Madhok, Mwoyo Makuto ac Angela Mutlow.

1.3 Ni chodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r eitemau i'w trafod.

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/2023

2.1 Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022-23 i'r Bwrdd. Nodwyd bod rhai heriau wedi bod wrth ddatblygu'r ddogfen a

oedd yn ymwneud â'i hamgylchiadau unigryw ar gyfer cyfnod sefydlu Llais.

2.2 Roedd y ddogfen wedi'i chraffu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gynharach yr wythnos honno ac roedd aelodau'r Pwyllgor wedi:

- nodi cynnwys yr adroddiad hwn
- nodi Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260)
- nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23
- cymeradwyo cyflwyniad Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 i Fwrdd Llais.

2.3 Cynigiodd y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ar gyfer Bwrdd Llais:

- mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 yn ffurfiol
- cymeradwyo llofnodi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 yn unol â chyngor ffurfiol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru:
    - Chris Jones ac Alyson Thomas i lofnodi Adroddiad Perfformiad (tudalen 6)
    - Chris Jones i lofnodi Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu (tudalen 13)
    - Chris Jones ac Alyson Thomas i lofnodi'r Datganiad Llywodraethu (tudalen 17)
    - Alyson Thomas i lofnodi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (tudalen 29)
    - Alyson Thomas a Medwin Hughes i arwyddo'r Llythyr Cynrychiolaeth.

2.4 Cytunodd y Bwrdd ar argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Risg.

**D23-07-01:** Cytunodd y Bwrdd i fabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 yn ffurfiol a chymeradwyo llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23.

## Unrhyw fusnes arall

3.1 Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

## Cwestiynau gan y cyhoedd

4.1 Nododd y Cadeirydd na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd cyn y cyfarfod.

4.2 Terfynwyd y cyfarfod.

Draft